Datganiad polisi ymgeiswyr preifat

Mehefin 2020

Cefndir

Pan aethom ati i gyhoeddi ein Gwybodaeth i Benaethiaid Canolfannau[1] ar 3 Ebrill, dywedasom ein bod yn ystyried dewisiadau amgen ar gyfer dysgwyr a oedd yn ymgeiswyr preifat.

Yn ein gwybodaeth i ganolfannau, nodwyd y byddai gradd gyfrifedig yn cael ei darparu ar gyfer dysgwyr yr oedd gradd asesu canolfan a threfn restrol wedi'u cyflwyno ar eu cyfer. Mewn achosion pan oedd canolfannau wedi derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr preifat, fe wnaethom esbonio hefyd y dylai'r dysgwyr hynny gael eu cynnwys os oes Pennaeth y Ganolfan yn hyderus ei fod ef/hi a'r staff yn hyderus eu bod wedi gweld tystiolaeth ddigonol o gyrhaeddiad y dysgwr i lunio barn wrthrychol.

Mae byrddau arholi wedi pennu canllawiau pellach[2] ar gyfer canolfannau pan fo Pennaeth y Ganolfan yn fodlon darparu gradd asesu canolfan ar gyfer ymgeisydd preifat, ond pan fo'n dymuno ystyried ffynonellau tystiolaeth ychwanegol cyn gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys y broses y byddai'n rhaid i ganolfannau ei dilyn i lunio barn am dystiolaeth o gyrhaeddiad dysgwyr, fel y gellir cyflwyno gradd asesu canolfan a threfn restrol i'r bwrdd arholi.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda CBAC i ystyried yn ofalus sut y gellir amddiffyn buddiannau ymgeiswyr preifat, nad oes ganddynt efallai gysylltiad presennol â chanolfan arholi a all lunio barn asesu canolfan ar eu cyfer.

Penderfyniadau'r Ymgynghoriad

Yn arbennig, rydym wedi ystyried a oes yna ffyrdd y gellir dyfarnu graddau i ymgeiswyr preifat sydd wedi sefyll rhywfaint o'r cymhwyster mewn cyfres gynharach, ond nad yw eu canolfan yn fodlon neu'n ddigon hyderus i gyflwyno gradd asesu canolfan a threfn restrol ar eu cyfer yr haf hwn.

Rydym wedi dod i'r casgliad y dylid caniatáu i raddau gael eu cyfrifo ar gyfer yr ymgeiswyr preifat hynny sydd wedi sefyll rhywfaint o'r cymhwyster mewn cyfres gynharach. Dylid defnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddir pan na all dysgwyr sefyll pob arholiad oherwydd salwch neu resymau eithriadol eraill.

Byddai rhoi'r dull hwn ar waith yn arwain at ddyfarnu mwy o raddau i ymgeiswyr preifat, ac efallai y bydd yn galluogi'r rhai a gaiff radd i gamu ymlaen at yrfa neu

[1] https://qualificationswales.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf

[2] https://www.jcq.org.uk/jcq-publishes-supplementary-information-on-validation-of-evidence-by-centres-for-private-candidates/

addysg bellach pan na fyddent wedi gallu gwneud hynny fel arall. Mae hon yn broses eithriadol ac ni chaiff ei defnyddio pan fydd gradd asesu canolfan a threfn restrol ar gael.

Fodd bynnag, fe fydd yna rai ymgeiswyr preifat na fyddant yn gymwys ar gyfer y dull hwn ac na fyddant, felly, yn cael gradd gyfrifedig yr haf hwn. Er ein bod yn awyddus i weld cynifer o ddysgwyr ag y bo modd yn cael gradd, mae'n hanfodol i'r holl raddau gael eu pennu trwy ddefnyddio proses gadarn, er mwyn i bawb fod â hyder ynddynt.

Ymgeiswyr preifat sy'n gymwys ar gyfer y dull hwn

Dim ond i ymgeiswyr preifat sy'n bodloni'r meini prawf isod y bydd y dull yn gymwys.

Mewn perthynas â chymwysterau TGAU ac UG cymeradwy:

- maent wedi cwblhau o leiaf 25% o gyfanswm yr asesiad mewn cyfresi blaenorol; a
- chofrestrwyd ar gyfer cymhwyster TGAU neu gymhwyster UG cymeradwy gyda CBAC ar neu cyn 21 Chwefror 2020, ac yn ôl yr Amod GQCov 3.1[3]; ac
- mae modd eu hadnabod yn glir fel unigolyn sydd wedi cofrestru fel ymgeisydd preifat; ac
- ni chyflwynwyd unrhyw ddata asesu canolfan ar eu cyfer.

Mewn perthynas â chymwysterau Safon Uwch cymeradwy:

- maent wedi cwblhau'r holl unedau UG cymeradwy mewn cyfres flaenorol; a
- • chofrestrwyd ar gyfer cymhwyster Safon Uwch cymeradwy gyda CBAC ar neu cyn 21 Chwefror 2020, ac yn ôl Amod GQCov 3.1; ac
- • mae modd eu hadnabod yn glir fel unigolyn sydd wedi cofrestru fel ymgeisydd preifat; ac
- • ni chyflwynwyd unrhyw ddata asesu canolfan ar eu cyfer.

Mewn perthynas â chymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 ac Uwch:

- maent wedi cwblhau o leiaf 25% o gyfanswm yr asesiad mewn cyfresi blaenorol; a
- chofrestrwyd ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau gyda CBAC ar neu cyn 21 Chwefror 2020, ac yn ôl yr amod GQCov 3.1; ac
- mae modd eu hadnabod yn glir fel unigolyn sydd wedi cofrestru fel ymgeisydd preifat; ac

[3] Amod GQCov 3.1 o'r Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol – Amodau a Gofynion COVID-19

- ni chyflwynwyd unrhyw ddata asesu canolfan ar eu cyfer.

Trosolwg o'r fethodoleg

Mae cyrff dyfarnu'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yn defnyddio weithdrefn 'graddio uwch', pan gaiff marc coll ei amcangyfrif ar gyfer dysgwr sy'n absennol (oherwydd rheswm derbyniol) o uned mewn manyleb lle defnyddir marciau unffurf.

Mae'r weithdrefn yn defnyddio perfformiad cymharol dysgwr yn yr uned(au) y maent eisoes wedi'u cwblhau (o leiaf 25%) fel sail i amcangyfrif eu perfformiad yn yr unedau nad ydynt wedi eu cwblhau wrth gyfrifo gradd cymhwyster gyffredinol. Rydym o'r farn bod y weithdrefn hon yn deg ac yn gyson.

Bydd y dull eithriadol o gyfrifo graddau ar gyfer ymgeiswyr preifat cymwys yn seiliedig ar ddull tebyg.

Manylion ynglŷn â sut y defnyddir y dull ar gyfer gwahanol senarios

Bydd manylion pellach ar gael ar ôl cadarnhau agweddau ar y model ystadegol.